

Rhagair

Er 1994 bu llawer o blwyfi yng Nghymru yn defnyddio'r *Drefn Arall* boblogaidd ar gyfer y Cymun Bendigaid (y 'Llyfr Aur'), os nad bob Sul, unwaith y mis neu ar achlysuron arbennig. Mae'r cyfnod o 'arbrofi' yn awr ar ben, ac yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2004 awdurdododd Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru adolygiad o Ewcharist y Llyfr Aur i fod yn 'Drefn ychwanegol' ac yn rhan o *Lyfr Gweddï Gyffredin Yr Eglwys yng Nghymru*.

"Dyma adeg o gynnydd mawr yn ein dull o wneud y pethau y gorchmynnodd ein Harglwydd inni eu gwneud," ebe'r Esgob David Thomas wrth y Corff Llywodraethol. Y mae *Cymun Bendigaid 2004* yn ffrwyth llafur hir, ac fe'i croesawyd fel "Trefn ardderchog ar gyfer yr Ewcharist, y dylai'r Eglwys yng Nghymru fod yn falch ohoni."

Casglwyd y llyfryn hwn ynghyd gan Grŵp Ymgynghorol Yr Eglwys yng Nghymru ar Adnoddau Addoli i gynorthwyo plwyfi i gyflwyno *Cymun Bendigaid 2004* i'w cynulleidfaoedd. Amlinellir y cefndir hanesyddol, awgrymir sut y dylid cyflwyno'r gwasanaeth, darperir gwybodaeth am gerddoriaeth a rhoddir cyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio'r Drefn pan fydd plant yn bresennol a sut i gynhyrchu llyfryn plwyf. Bydd y Grŵp yn edrych ymlaen at glywed sut y defnyddir *Cymun Bendigaid 2004* ym mhlwyfi'r Eglwys yng Nghymru.

Philip Morris

Cynnwys

Sut y daethom i'r fan hon?

Tudalen 1

Cyflwyno'r Ewcharist

Tudalen 9

Cerddoriaeth yn yr Ewcharist

Tudalen 16

Plant yn yr Ewcharist

Tudalen 23

Cyfranwyr

Y Gwir Barchedig David Thomas: Esgob Cynorthwyol y Dalaith, yr Esgob Cyswllt Litwrgaidd, Cadeirydd Pwyllgor Adolygu'r Cymun Bendigaid.

Y Parchedig Irving Hamer: Ficer Eglwys Sant Martin, Y Rhath, Caerdydd.

Athro John Harper: Cyfarwyddwr Ysgol Frenhinol Cerddoriaeth Eglwysig.

Y Parchedig Kay Warrington: Swyddog Plant yr Eglwys yng Nghymru.

Yr Hybarch Philip Morris: Archddiacon Margam ac aelod o'r cychwyn o'r Grŵp Ymgynghorol ar Adnoddau Addoli.

Sut y daethom i'r fan hon?

Yn ôl i'r dechrau ...

Daw'r adroddiad rhesymol eglur cyntaf sydd gennym am weinyddu'r Cymun Bendigaid oddi wrth Iestyn Ferthyr tua chanol yr ail ganrif. Ysgrifenna Iestyn:

'Ar y dydd a elwir y Sul cynhelir cynulliad mewn un lle ... a darllenir adroddiadau'r apostolion neu ysgrifeniadau'r proffwydi am gyhyd ag y caniatâ amser. Yna, pan fydd y darllenydd wedi gorffen, bydd y llywydd, mewn araith, yn ein ceryddu ac yn ein hannog i ddynwared y pethau da hyn. Yna, byddwn i gyd yn sefyll ac yn offrymu gweddïau; ... a phan fyddwn wedi gorffen gweddïo, deuir â bara a gwin a dŵr, a bydd y llywydd yntau yn offrymu gweddïau a diolchiadau hyd eithaf ei allu, a bydd y bobl yn cydsynio drwy ddweud yr Amen; ac fe rennir y pethau y diolchwyd amdanynt, a bydd pawb yn cyfranogi; ac fe'u hanfonir drwy'r diaconiaid i'r rhai nad ydynt yn bresennol.'

Mae'n amlwg o bwys i Iestyn fod y geiriau a ddefnyddir yn addas ym mhob ffordd. Dyna pam, er enghraifft, fod yn rhaid i'r llywydd ddweud y weddi ganolog (a oedd o hyd, bryd hynny, yn weddi o'r frest) 'hyd eithaf ei allu' a bod yn rhaid i'r darlleniadau ddod o ffynonellau addas.

Ar yr un pryd, y mae gwir ddiddordeb Iestyn yn y ffaith nad rhywbeth a ddywedir yn unig mo'r Cymun, ond rhywbeth a wneir. Gweithred ydyw a wneir gan Gristnogion mewn ufudd-dod i orchymyn yr Arglwydd, 'Gwnewch hyn er cof amdanaf'. Dyna pam fod Iestyn, mewn man arall yn ei ysgrifeniadau, yn sôn am 'wneud y Cymun'. Byddai, felly, yn siŵr o gymeradwyo'n fawr eiriau agoriadol Nodyn 6 ar ddechrau *Cymun Bendigaid 2004 (CB04)*: 'Gweithred holl bobl Dduw yw'r Ewcharist'.

Rhoddyd pwyslais newydd ar y ddealltwriaeth hynafol hon o'r Ewcharist fel gweithred gyda chyhoeddi yn 1945 *The Shape of the Liturgy* o waith ysgolhaig o Anglican a berthynai i Urdd Sant Benedict, Dom Gregory Dix o Abaty Nashdom. Yn y llyfr hwn, a fyddai'n dylanwadu ar ysgolheigion ac adolygwyr litwrgaidd o bell ac agos ac o wahanol enwadau, dadleuodd Dix, yn ddysgedig ac yn bur faith, y dylai gweithred ewcharistaidd yr Eglwys ddilyn patrwm yr hyn a wnaeth Iesu gyda'r bara a'r cwpan yn ystod y swper olaf. Ar ddechrau'r pryd bwyd, cymerodd yr Arglwydd y bara, ei fendithio a'i dorri a'i rannu; ac ar y diwedd cymerodd y cwpan a'i fendithio a'i rannu – saith gweithred i gyd. Am resymau y gellir yn hawdd eu dyfalu, ond y mae'n amhosibl eu disgrifio gydag unrhyw sicrwydd, peidiwyd o gyfnod pur gynnar â

chynnwys y pryd bwyd yn rhan o drefn ewcharistaidd yr Eglwys, ac unwaith y digwyddodd hynny fe unwyd y ddwy gyfres o weithredoedd a wnaeth Iesu parthed y bara a'r gwin. Daeth y patrwm seithblyg gwreiddiol yn batrwm pedwarplyg. Cynhwysai – a dyna'r drefn hyd heddiw - gymryd y bara a'r gwin gyda'i gilydd, eu bendithio (mater yn bennaf, yn ôl cynsail Iddewig, o ddiolch amdanynt ac o offrymu diolch uwch eu pen), torri'r bara a rhannu'r rhoddion a gysegrwyd.

Trefn bedwarplyg *Cymun Bendigaid* 2004

Yr oedd y drefn bedwarplyg o gymryd, bendithio, torri a rhannu yn sicr yn bresennol yng Ngwasanaeth y Cymun Bendigaid 1664, ond mewn ffordd dra anghyflawn. Cynhwysid y tair gweithred gyntaf mewn un adran fer o'r weddi gysegru. Ymhellach, er cydnabod ers o leiaf ddyddiau Emrys Sant fod i eiriau'r Arglwydd, 'Hwn yw fy nghorff ... Hwn yw fy ngwaed', arwyddocâd enfawr yn y weithred o gysegru, y mae trefn 1664 yn eu gorbwysleisio. Symptom o'r peth yw'r ffaith mai cyfyngedig iawn yw'r mynegiant o ddiolchgarwch yn y rhagarweiniad, ac fe'i gwahenir oddi wrth y weddi gysegru gan y weddi o ddyfodiad gostyngedig. Beirniadaeth arall, fwy cyffredinol, ar drefn 1664 yw bod ei geiriogrwydd yn cymylu'r agwedd 'weithredol' ar y ddefod.

Pan ddaeth yr Eglwys yng Nghymru yn dalaith ymreolus yn 1920, parhaodd i ddefnyddio Llyfr Gweddi 1664. Bu'n rhaid aros tan fis Medi 1966 cyn i'r Corff Llywodraethol awdurdodi trefn newydd i'w defnyddio'n arbrofol. Yr oedd y drefn hon (*CB66*, 'y llyfr gwyrdd') yn mynegi'n llawer mwy eglur na threfn 1664 siâp pedwarplyg y weithred litwrgaidd. Ymddengys y fersiwn terfynol o drefn 1966 yng Nghyfrrol I Llyfr Gweddi 1984 (*CB84*, 'y llyfr coch'). O safbwynt siâp y litwrgi, does dim gwahaniaeth o gwbl rhwng *CB66* a *CB84*. Y maent yn nodweddiadol o weithiau litwrgaidd sy'n dangos dylanwad cynnar Dix. Gellid disgwyl hynny, wrth gwrs, yn achos *CB66*, ond y y mae'n syndod fod dylanwad Dix yn dal ddeunaw mlynedd yn ddiweddarach. Erbyn hynny, cawsai rhai cwestiynau pwysig eu codi parthed ei thesis.

Yr oedd y cwestiwn cyntaf yn ymwneud â chymryd y bara a'r cwpan. Braidd yn dywyll oedd sylwadau Dix ar hyn, ond yr oedd adolygwyr litwrgaidd o Anglicaniaid y dylanwadodd ef arnynt wedi tueddu i gyfartalu cymryd y bara a'r cwpan â'r offrwm litwrgaidd. O hyn y deilliodd yr arfer seremonïol a gysylltid – ac nid yn lleiaf yng Nghymru – â Mudiad Cymun y Plwyf. (Yr oedd y mudiad hwnnw wedi 'ailddarganfod' yr hen orymdaith offrymu, a gosodai bwyslais enfawr arni.)

Erbyn 1984, yr oedd y litwrgydd efengylaidd, Colin Buchanan, wedi bod yn ymosod yn drwm ers oddeutu 15 mlynedd ar gyfartalu'r offrwm â'r cymryd, gan ddadlau, yn rhesymol ddigon, nad oedd dod â'r bara a'r gwin at yr allor yr un peth o gwbl â chymryd y bara a'r cwpan: nid yw'r offrwm yn ddim ond rhagarweiniad i'r weithred bedwarplyg. Yn ddiddorol, yr oedd Llyfr Cymun diwygiedig yr Eglwys Babyddol, 1970, eisoes wedi disodli'r term 'Yr Offrwm' â'r term llawer mwy eglur 'Paratoi'r Rhoddion'. Gwelir dylanwad dadleuon Buchanan a Llyfr Gweddi'r Pab Paul VI (cyfuniad annhebygol, hwyrach!) ar y modd y mae *Holy Communion, Series 3* Eglwys Loegr, a'r rhan fwyaf o'r defodau cymun Anglicanaidd wedi hynny, yn gwahanu cymryd y bara a'r cwpan oddi wrth baratoi'r rhoddion. O'r diwedd cynhwysodd Yr Eglwys yng Nghymru y datblygiad yn nhrefn arbrofol y Cymun mewn iaith gyfoes, 1994 (*CB94*, 'y llyfr aur'), ac nid yw'n syndod mai dyma hefyd sydd yn *CB04*.

Sut y daethom i'r fan hon?

Yr oedd a wnelo'r ail gwestiwn â'r berthynas rhwng y pedwar peth a wneir â'r bara a'r gwin yn ystod y Cymun. Yr oedd rhai ysgolheigion litwrgaidd, yn ECUSA yn bennaf, wedi nodi fod y dilyniant syml *CYMRYD – BENDITHIO – TORRI – RHOI* yn brennaidd a difywyd: mae'n rhoi pwyslais cyfartal ar y pedwar peth, pan nad ydynt, mewn gwirionedd, yn gyfartal o gwbl. Er mwyn eu bendithio y cymerodd yr Arglwydd y bara a'r cwpan, ac er mwyn ei rannu y torrodd y bara. Mewn gair, y mae yma ddwy weithred fawr a gyflwynir gan ddwy weithred fechan sy'n rhan annatod ohonynt. Cywirach, felly, fyddai mynegi'r dilyniant yn y weithred bedwarplyg fel *cymryd er mwyn BENDITHIO – torri er mwyn RHOI*. Dyna pam y disodlwyd y penawdau *YR OFFRYMIAD – Y WEDDI EWCHARISTAIDD – TORRI'R BARA – Y CYMUN* yn *CB66* a *CB84* gan ddau bennawd yn *CB04*, sef *Y DIOLCH* (lle mae'r offeiriad yn cymryd y bara a'r cwpan fel rhagarweiniad) a'r *CYMUN* (lle mae'r offeiriad, fel rhagarweiniad eto, yn torri'r bara). Effaith ymarferol yr aildrefnu hwn yw gwrthbwyso unrhyw duedd i orbwysleisio'r weithred o gymryd y bara a'r cwpan neu o dorri'r bara.

Mae'n ddiddorol fod adroddiad Iestyn Ferthyr yn cyfateb yn agos i'r drefn hon. Nid oes ganddo ef ddim i'w ddweud am gymryd y bara a'r cwpan nac am dorri'r bara. Y pethau pwysig iddo ef yw bod y llywydd 'yn offrymu gweddiâu a diolchiadau' uwchben y bara a'r cwpan a bod 'pawb yn cyfranogi o'r pethau y diolchwyd amdanynt'.

Strwythur Litwrgaidd Cyflawn

3

Pan drafodwyd *CB04* yn y Corff Llywodraethol ym mis Medi 2003, roedd hi'n gwbl ddealladwy i rai pobl gwyno am y nifer sylweddol o ddewisiadau a gynhwyswyd. Mewn rhai achosion (e.e. Atodiad I), cyfyd y dewisiadau o natur amrywiol yr etifeddiaeth litwrgaidd Anglicanaidd. Mewn achosion eraill (e.e. Atodiadau V, VI a VIII), cyfyd o'r angen am ddarpariaethau tymhorol. Ffactorau eraill a gyfrannodd at hyn yw'r angen i roi cymaint o gymorth ag sy'n bosibl i'r rhai hynny sy'n arwain rhannau arbennig o'r gwasanaeth (e.e. Atodiadau III a IV), a'r angen i ddarparu deunydd addas ac awgrymiadau ymarferol ar gyfer gweinyddiad lle y mae nifer sylweddol o blant yn bresennol (Gweddiâu Ewcharistaidd 6 a 7, Canllawiau).

Unwaith y deallir dylanwad ffactorau fel hyn ar gyfansoddiad *CB04*, mae'r nifer fawr o ddewisiadau ac amrywiadau a ganiateir yn llawer llai brawychus. Fodd bynnag, nid damwain mo'r ffaith mai'r eitem gyntaf un yn y llyfr yw amlinelliad clir o'r ddefod gyflawn. Os rhywbeth a *wneir* yw'r Ewcharist yn ei hanfod, yna y mae ei strwythur cyflawn yn hynod o bwysig. Strwythur y weithred yw'r ffrâm y ffitir i mewn iddi y gwahanol weddiâu a'r amrywiol eitemau eraill. Y mae'n hanfodol, felly, cyn gwneud dim byd arall â *CB04*, treulio ychydig funudau i ystyried ei strwythur yn fanwl. Fel y dywedais wrth gynnig y Bil perthnasol yng Nghorff Llywodraethol Ebrill 2004, y geiriau y dylem eu dwyn ar gof er mwyn deall a defnyddio *CB04* yw Gweithred, Strwythur, Siâp, Amlinelliad. Os eir yn syth at y testun (neu, yn waeth fyth, at yr Atodiadau), y canlyniad fydd dryswch llwyr a buan! Ond dechreuer gyda'r strwythur, a bydd popeth yn iawn. Fel y dywedodd Iestyn Ferthyr ganrifoedd maith yn ôl, rhoddodd yr Arglwydd y Cymun Bendigaid inni '*y wneud* coffâd am ei ddiodefaint ... fel y rhoddem ddiolch i Dduw'. Y mae geiriau'r Cymun yn bwysig iawn, wrth gwrs, ond na ddalled hynny ni i'r ffaith fod gweithred y Cymun yn bwysicach fyth.

Amlygir y pwynt hollbwysig hwn ynglŷn â strwythur yn yr *Amlinelliad o Ffurf ar Gyfer y Cymun Bendigaid* tua diwedd *CB04*. Cynlluniwyd hwn ar gyfer gweinyddiadau 'anffurfiol' o dro i dro, er enghraifft mewn grwpiau gweddi neu grwpiau astudio'r Beibl, sy'n debycach o gyfarfod yng nghartrefi'r aelodau nag yn yr eglwys. Er mwyn sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol, cyfyngwyd y geiriau penodedig i'r hanfodion, a'r canlyniad yw pwyslais amlwg iawn ar strwythur y gweithredu ewcharistaidd.

Dylid darllen yn ofalus y nodiadau ar ddechrau *CB04*. Y maent yn fwy cyflawn o gryn dipyn na'r nodiadau ar ddechrau *CB94*. Y mae rhai ohonynt yn nodi pethau amlwg, y dylid, serch hynny, eu datgan (e.e. 1-2, 13), ac y mae a wnelo llawer â mân fanylion. Y mae eraill, fodd bynnag (e.e. 3-6, 11), yn datgan egwyddorion litwrgaidd hynod o bwysig. Ymhellach, y mae pwysigrwydd arbennig, ymarferol a bugeiliol, i Nodyn 18 ac i Atodiad IX.

Arddull Ieithyddol y Ddefod

Er bod iaith Llyfr Gweddi Saesneg 1662 yn aruchel a phrydferth, yr oedd teimlad cynyddol erbyn y 1960au, oherwydd ei natur flodeuog ac aneglurder rhai o'r cymalau (e.e. 'indifferently minister justice'), fod angen am fynegiant litwrgaidd llai cymhleth. Dyna pam y symleiddiodd Eglwys Loegr yn ei *Series 2 Holy Communion* y ffurfiau 'thee/thou'. Di-liw ac anneniadol oedd hyn, am nad oedd na thraddodiadol na chyfoes. Ar gyfer ei *Series 3 Holy Communion*, felly, dewisodd Comisiwn Litwrgaidd Eglwys Loegr ffurf farddonol, eithaf cyfoethog, ar Saesneg cyfoes, a rhoddwyd y cyfrifoldeb ieithyddol ar ysgolhaig Saesneg o Gaer-grawnt, y Dr. David Frost.

4 | Yr oedd arddull Saesneg *CB66* Yr Eglwys yng Nghymru rywle yn y canol rhwng eithafion 1662 a *Series 2* – yn debyg, mewn gwirionedd, i arddull y *Revised Standard Version* o'r Beibl Saesneg, yn ddealladwy ond nid heb urddas, ac yn adleisio 1662 yn aml. Yr oedd yr arddull hon mor boblogaidd fel bod nifer o blwyfi yn Lloegr ar ddiwedd y 1960 ac a dechrau'r 1970au yn defnyddio *CB66* ar draul ei *Series 2* hwy eu hunain. (Tybed a wyddai'r esgobion Seisnig y digwyddai hyn yn eu hesgobaethau am y peth?).

Er na phenododd Comisiwn Litwrgaidd yr Eglwys yng Nghymru yn y 1960au neb i roi cyngor ar arddull y fersiwn Saesneg, gwnaeth y bardd-offeiriaid Euros Bowen gyfraniad enfawr a chlodwiw iawn ar fater arddull y fersiwn Cymraeg.

Cyn diwedd y 1960au, yr oedd rhai aelodau o'r Comisiwn Litwrgaidd Cymreig wedi dod i'r casgliad, gyda gwir ofid, fod arddull ieithyddol *CB66* eisoes wedi cyrraedd diwedd ei hoes. Felly, yn 1969 fe sefydlwyd grŵp i baratoi fersiwn o *CB66* mewn Saesneg cyfoes. Yn wyneb yr hyn a ddigwyddodd wedyn, gall beri syndod heddiw fod y Comisiwn Cymreig wedi gorffen y dasg honno, a'r gwaith ar rai o'r colectau, ryw dair blynedd cyn cyhoeddi *Series 3 Holy Communion* Eglwys Loegr. (Yr unig eitem o'r fenter hon a ddefnyddir erbyn hyn yng Nghymru yw'r colect mewn Saesneg cyfoes ar gyfer Dydd Gwener y Groglith sydd yng nghyfes colectau 2003. Mabwysiadwyd hon gan Eglwys Loegr ar gyfer ei *Alternative Service Book* (ASB), ar adeg pan roddid llai o sylw i hawlfraint nag a wneir yn awr, a dychwelodd adref i Gymru yn y gyfrol *Common Worship*.)

Yn anffodus, ac am ba reswm bynnag, ychydig o frwdfrydedd dros wasanaethau mewn iaith gyfoes oedd gan Fainc Esgobion Cymru yn y 1970au cynnar. O ganlyniad, dim ond ar ffurf ddyblygedig y cyhoeddwyd fersiwn iaith gyfoes *CB66*. Rhwystr arall oedd na chaniatâi'r esgobion i neb ei ddefnyddio heb dderbyn caniatâd esgob yr esgobaeth ar bob achlysur y gwneid hynny. Y penderfyniad annoeth hwn oedd un o'r rhesymau pennaf pam yr aeth ugain mlynedd arall heibio cyn datblygu Ewcharist iaith-gyfoes yn Yr Eglwys yng Nghymru.

Yn y cyfamser, gwnaeth y Comisiwn Litwrgaidd ei orau i gynhyrchu deunydd Saesneg llai hynafaidd. Yr oedd y canlyniadau'n aml yn anffodus. Enghraifft wych yw'r paragraff yn *CB84* sy'n dechrau 'All glory, praise and thanksgiving ...', yn syth wedi'r *Benedictus qui venit*. Cafodd y frawddeg hir a hynafaidd sydd yn y fan hon yn *CB66* ei 'gwella' yn y fath fodd nes iddi gollir rhan fwyaf o'i rhythm ac i'w hystyr fynd ar goll.

Sut y daethom i'r fan hon?

Enghraifft arall yw'r ymateb 'And with your spirit' i'r cyfarchiad 'The Lord be with you'. Hyd yn oed os oedd Duw i'w gyfarch, yn ôl *diktat* yr esgobion, mewn iaith ffug-Duduraidd, yr oedd y Comisiwn Litwrgaidd wedi cytuno y dylai'r cyfnewid geiriau rhwng yr offeiriad a'r gynulleidfa fod mewn iaith gyfoes. Roedd methiant polisi cymysg o'r fath yn anochel. Yr oedd yn sicr o arwain at ddryswch. Y canlyniad oedd yr ymadrodd alaethus 'And with your spirit', nad yw na Thuduraidd na chyfoes.

Yr ymgais nesaf i lunio Ewcharist mewn iaith gyfoes oedd y drefn a awdurdodwyd yn 1984 i'w defnyddio'n arbrolfol. Taflwyd honno i'r cysgod gan drefn y Llyfr Gweddi, *CB84*, a gyhoeddwyd yr un pryd yn union, ac nid syndod, felly, na fu llawer o sylw iddi na diddordeb ynddi.

Erbyn diwedd y 1980au, fodd bynnag, yr oedd rhwystredigaeth ar gynydd. Yr oedd y rhai a chanddynt gof hir yn siomedig fod Cymru, a fuasai yn y 1960au ar flaen y gad yn adolygu'r Ewcharist Anglicanaidd, yn llusgo bellach y tu ôl i daleithiau eraill. Yr oedd diffyg Ewcharist iaith-gyfoes yn arwain hefyd at ganlyniadau ymarferol anffodus.

Un o'r rheini oedd y ffaith ei bod yn anodd (yn amhosibl, yn ôl rhai) addasu *CB84* ar gyfer plant.

Yr oedd a wnelo un arall â'r gosodiadau cerddorol. Er y gallai cynulleidfaoedd cadeirlannau ymfoethuso gyda gosodiadau Sumsion, Darke a Howells, yr oedd yn rhaid i'r mwyafrif o gynulleidfaoedd plwyfi ymfodloni ar ychwaneg o'r hen Merbecke (fel y trefnwyd ef yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, heb ystyried o gwbl ei gefndir fel plaengan), Burton yn F neu, yn waeth fyth, *Folk Mass* Martin Shaw, gyda'i *Gloria in excelsis* digalon yn y cywair lleddf. Go brin fod y rhagolygon yn codi ysbryd neb!

Ar y cefndir hwn y cychwynnodd y Comisiwn Litwrgaidd newydd ar ddechrau'r 1990au, gyda chefnogaeth y Fainc, fel mater o frys ar y gwaith o gynhyrchu trefn ar gyfer y Cymun mewn iaith gyfoes. Yn 1994, awdurdodwyd y drefn gan y Corff Llywodraethol ar gyfer ei defnyddio'n arbrolfol. Nid yw'n syndod, dan yr amgylchiadau, i *CB94* ddod mor boblogaidd mor sydyn. Os lleisiwyd yr angen amdano gan lawer, roedd yn amlwg i'r angen hwnnw gael ei deimlo gan lawer mwy.

Yr oedd arddull Saesneg *CB94* yn debyg i un *Series 3* a Defod A yn *ASB* Eglwys Loegr. Cynorthwywyd y Comisiwn yn fawr yn y cyswllt hwn gan Walter Williams, Canghellor Esgobaeth Llanelwy, a luniodd y gweddiâu prydferth 'Dad y gogoniant, sanctaidd a thragwyddol ...' ac 'O Arglwydd Iesu Grist, yr wyt yn ein denu a'n croesawu ni ...', y cadwyd y ddwy ohonynt yn *CB04*. Wedi i'r Canghellor Williams ymddeol, derbyniodd y Dr. Jim Davies, arbenigwr ar waith Dylan Thomas, o Adran Saesneg Prifysgol Cymru, Abertawe, wahoddiad y Fainc i gynorthwyo ac i gynghori'r Comisiwn ar faterion arddull Saesneg.

Gellid dweud mai'r athroniaeth sylfaenol y tu ôl i baratoi *CB04* oedd 'Os yw'n gweithio, peidied â'i drwsio'. O ganlyniad, fe oroesodd Gweddiâu Ewcharistaidd 1-3 yn *CB94* heb ond ychydig o fân newidiadau, ond disodlwyd Gweddi Ewcharistaidd 4, yr oedd ei harddull ieithyddol 'glonciog' yn ddiffygiol, gan weddi newydd sbon. Ychwanegwyd Gweddi Ewcharistaidd 5, sy'n deillio o Eglwys Esgobol yr Alban, ar gais yr archesgob presennol, a chyfansoddiadau newydd yw rhifau 6 a 7, a luniwyd i'w defnyddio pan fo niferoedd sylweddol o blant yn bresennol.

Perthyn anawsterau unigryw i'r gwaith o gyfieithu testunau litwrgaidd hynafol i iaith cyfoes. Dwy esiampl yn *CB04* yw Rhaglith 2 (Nadolig) a'r gwahoddiad cyntaf i gymuno, 'Rhoddion sanctaidd Duw ...'

Y mae fersiwn gwreiddiol y bumed ganrif o Raglith 2 yn enghraifft berffaith o'r modd y gall Lladin litwrgaidd gyfuno cyfoeth diwinyddol a chrynodder ieithyddol. Yr oedd y cyfieithiad lled-lythrennol yn *CB94* wedi dangos anhawster y cyfieithydd. (Felly hefyd gyfieithiadau *Common Worship* a Llyfr Cymun yr Eglwys Babyddol.) O'r diwedd, wedi nifer o fethiannau, penderfynodd cyfieithwyr CB04 mai'r unig beth synhwyrol i'w wneud oedd canolbwyntio ar un syniad allweddol yn y gwreiddiol. O ganlyniad, nid yw'r cyfieithiad yn un manwl o gwbl, ond y mae o leiaf yn rhesymol ddealladwy ac yn nes at waith gwreiddiol Leo Fawr nag y byddai aralleiriad llwyr.

Y mae Groeg gwreiddiol y bedwaredd ganrif ar ddechrau'r fformiwla wahodd, 'Rhoddion sanctaidd Duw ...' hefyd yn gur pen i gyfieithydd. O'i gyfieithu'n llythrennol, dechreuwa fel hyn: 'Pethau sanctaidd i [bobl] sanctaidd. Un sanctaidd, un Arglwydd ...'. Mae dweud y gair 'sanctaidd' deirgwaith yr un mor bwysig o safbwynt diwinyddol ag ydyw o safbwynt arddull. Yn y ddau achos cyntaf, a ddywedir gan yr offeiriad, defnyddir y gair yn ei ystyr fwyaf sylfaenol, sef 'perthyn i Dduw'. Disgrifir elfennau'r Cymun fel pethau sanctaidd am iddynt gael eu gwneud, drwy gael eu cysegru, yn rhoddion Duw; a gelwir y rhai sydd i'w derbyn yn bobl sanctaidd am iddynt gael eu gwneud, drwy fedydd, yn bobl Dduw. Datblygir y syniad yn y trydydd defnydd o'r gair, a ddywedir gan y gynulleidfa mewn ymateb i wahoddiad yr offeiriad, ac sy'n ehangu ystyr y ddau ddefnydd cyntaf drwy eu croes-ddweud. Dim ond mewn ystyr eilradd a tharddiadol y mae'r rhoddion ar yr allor a'r rhai sydd i'w derbyn yn sanctaidd. Ni ellir galw neb yn sanctaidd mewn ystyr absoliwt on Iesu Grist ei hun. Dim ond am i'r Ysbryd Glân eu gwneud yn gorff a gwaed sacramentaidd yr Arglwydd y mae'r rhoddion yn sanctaidd; a dim ond am i'r Arglwydd eu prynu a'u gwneud yn 'frenhiniaeth ac yn offeiriaid i Dduw' y mae'r cymunwyr yn sanctaidd.

Mabwysiadodd *CB94* y cyfieithiad taclus a chwbl gywir o'r fformiwla hon, 'Rhoddion Duw i bobl Dduw. Iesu Grist sy'n sanctaidd ...'. Yn anffodus, er mor daclus ydyw, mae'r cyfieithiad hwn (sy'n deillio o ECUSA yn y 1970au) yn cuddio'r ffaith fod y Groeg gwreiddiol yn cynnwys y gair 'sanctaidd' deirgwaith. Os metha'r cyfieithydd fynegi yn ddigamsyniol eglur y tri defnydd hyn o'r gair, gellir yn hawdd anghofio'r pwynt diwinyddol ac ysbrydol pwysig a wneir yn y gwreiddiol. Ymgynghorodd y Comisiwn Litwrgaidd â nifer o grwpiau Uniongred yn y Deyrnas Unedig, a bu'n ystyried yn ofalus dros ben, cyn penderfynu mai'r ymadrodd – er ei fod yn ailadroddus – a fynegai orau graffter a dyfnder y gwreiddiol oedd 'Rhoddion sanctaidd Duw ar gyfer pobl sanctaidd Duw'. Ar ôl ystyried y mater a dod i benderfyniad, edrychodd rhai ohonom yn y gyfrol *Common Worship*, a oedd, bryd hynny, yn newydd o'r wasg, ac nid syndod inni oedd canfod fod adolygwyr Eglwys Loegr, yn gwbl annibynnol arnom ni, wedi dod i'r un casgliad.

Gwelir enghraifft arwyddocaol o gyfieithu anfanwl i'r Saesneg yn Rhaglith 21 (Beirdd). Y gwreiddiol yn yr achos hwn yw'r testun Cymraeg, na ellir ei drosi'n iawn i'r Saesneg am ei fod yn defnyddio'r gair technegol *cynganedd*. Mawr obeithir y cyfoethogir ein litwrgi gan ragor o gyfansoddiadau gwreiddiol Cymraeg yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Yn wir, y mae hynny'n hanfodol os ydym am gyfiawnhau ein honiad ein bod yn dalaith ddwyieithog.

Beth Nesaf?

Y mae hanes trist Deddf Unffurfiaeth 1552, yr atodwyd iddi Ail Lyfr Gweddi Edward VI, yn rhybudd i bawb sy'n adolygu'r litwrgi. Yr oedd Deddf 1552 yn datgan mewn un man fod yr Ail Lyfr Gweddi wedi gwneud darpariaeth flaenorol 1549 yn 'fwy eglur ac amlwg', yn wir yn 'gwbl berffaith'. O fewn ychydig fisoedd daeth Mari Tudur i'r orsedd a gwaharddwyd Llyfr Gweddi

Sut y daethom i'r fan hon?

1552. Pan ddechreuwyd ei ddefnyddio drachefn ar esgyniad Elisabeth I, yr oedd rhai mân newidiadau a wnaed i'r geiriau gweinyddu wedi bwrw holl ddiwinyddiaeth ofalus Thomas Cranmer yng Ngwasanaeth Cymun 1552 i anhrefn.

Y mae'r rhai a fu'n gyfrifol am *CB04* yn gobeithio'n ddefosiynol y pery eu gwaith beth yn hwy na Gwasanaeth Cymun Cranmer! Serch hynny, ni fyddai neb ohonom mor ffôl â thybio fod *CB04* yn 'gwbl berffaith'. Mewn gwirionedd, gan mai yn ei gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid y mae'r Eglwys bob amser yn ei diffinio'i hun, a chan fod yr Eglwys yn gorff byw, ni allwn byth, y tu yma i'r nefoedd, gyrraedd perffeithrwydd litwrgaidd. Gellir cymhwyso geiriau doeth y Cardinal Newman i hyn, fel ag i agweddau eraill ar fywyd y Cristion: 'Newid yw byw, a bod yn berffaith yw bod wedi newid yn aml'.

Hyd yn oed wrth i *CB04* gychwyn ar ei rawd, gellir rhagweld rhai datblygiadau tebygol.

Y mae a wnelo un ohonynt â'r arfer gynyddol a chwbl ganmoladwy o gyflwyno (ac, o bosibl, ddiweddu) y darlleniad o'r Efengyl, ar Suliau a gwyliau o leiaf, gyda bonllfau a chaneuon addas eraill o foliant. Mae'r arfer hynafol hon yn ddatganiad grymus fod Crist yn bresennol yn ei air yn ogystal ag yn ei sacrament. Ond, er gwaethaf esiamp *Common Worship*, ni wnaeth adolygwyr *CB04* ddarpariaeth ar ei chyfer. Y prif reswm am hynny yw bod y testunau perthnasol eisoes ar gael yn hwylus yn *The English Hymnal, Emynau'r Eglwys* a ffynonellau adnabyddus eraill. Y mae hefyd arwyddion derbyniol ar hyn o bryd y datblygir mewn modd tra chyffrous yn ystod y deg neu'r ugain mlynedd nesaf siant draddodiadol yr Alelwia. Bwriad peidio â chynnwys yn *CB04* unrhyw ruddell na Nodyn parthed bonllfau oddeutu'r Efengyl yw gadael y maes yn agored ar gyfer yr arbrofi a'r datblygu angenrheidiol.

Yn ail, ymddengys fod ffurf yr Ewcharist Anglicanaidd ar Gân yn graddol newid. Mae'n fwyfwy cyffredin y dyddiau hyn i'r fonllef yn ystod y weddi ewcharistaidd, a'r Amen sy'n ei dilyn, fod yn uchafbwyntiau cerddorol. Y mae datblygiad o'r fath yn gwbl addas. Byddai'r llygwyr Iestyn Ferthyr yn llawenhau o weld y pwyslais adferedig ar yr Amen ar ddiwedd y weddi ewcharistaidd. Dywed ef fod 'y bobl i gyd sy'n bresennol', wedi i'r llywydd ddweud y weddi ewcharistaidd, 'yn cydsynio drwy ddweud yr Amen. Amen yw'r Hebraeg am Boed felly'. Mae'n egluro fod hyn yn digwydd 'ar ôl i'r llywydd roi diolch ac i'r bobl i gyd gydsynio'. Y mae balchder Iestyn o gael cydsynio â'r weddi ewcharistaidd drwy ddweud ei Amen yn amlwg. Argraffwyd y gair hynod bwysig hwn ar ddiwedd y weddi ewcharistaidd, yn addas ddigon, mewn priflythrennau yn *CB66*. Am ryw reswm fe'i lleihawyd yn *CB84* i lythrennau bach yn dilyn y briflythyren A; a pharhaodd y trefniant hwn, heb i neb sylwi arno nes ei bod yn rhy hwyr, drwy *CB94* i *CB04*. (Byddai camgymeriad argraffu yn yr achos hwn yn fwy na derbyniol!)

Y mae datblygu'n gerddorol yr Amen a'r bonllfau bron yn sicr o achosi amrywiadau geiriol yn y manau hyn. Yn ystod y trafodaethau pwyllgor yn y Corff Llywodraethol ym mis Ebrill 2004 dywedais na ddylai arbrofi o'r fath, nad oes iddo unrhyw ganlyniadau athrawiaethol, fod yn bwnc llosg, ac nid anghytunodd neb.

Cyfyd y trydydd datblygiad a ragwelaf o ystyriaeth ymarferol. Y mae'r defnyddio aflladennau enfawr ar gynnydd yn yr Eglwys yng Nghymru, a dylid yn sicr annog hynny am ei fod yn pwysleisio symboliaeth yr un bara. Fodd bynnag, gan fod aflladennau o'r fath yn cael eu torri'n rhyw 70 o ddarnau, y mae'n cymryd amser pur faith i'w torri'n iawn.

Maint y dorth ewcharistaidd oedd y rheswm pam, yn yr hen *Ordines Romani*, fod yr *Agnus Dei* yn cael ei ganu nid deirgwaith, ond drosodd a throsodd, nes bod y bara cysegredig i gyd wedi ei dorri yn barod i'r cymun. Y mae adfer y defnydd o aflladennau llawer mwy eisoes

wedi arwain mewn rhai lleoedd at gyfansoddi fersiynau cwmpasog ac estynedig ar yr *Agnus Dei*. Mae'n eironig, efallai, y gallai'r broses hir o dorri'r bara, onis gwneir fel hyn i gyfeiliant canu, dynnu gormod o sylw ati ei hun ac ystumio, felly, rhythm gosodedig y weithred bedwarplyg.

Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn *CB04* ar gyfer defnyddio testunau estynedig o'r *Agnus Dei*. Gobeithir, fodd bynnag, na fydd hyn yn rhwystro'r rhai sydd am arbrofi yn yr achos hwn rhag gwneud hynny. Dylent gael eu calonogi gan y ffaith nad yw'r fersiwn cyntaf ar yr *Agnus Dei* yn *CB04* yn gyfieithiad manwl o bell ffordd o'r Lladin gwreiddiol. Cyfansoddwyd yr aralleiriad cyfoethog ac atgofus hwn gan yr ysgolhaig litwrgaidd enwog o Sais, Geoffrey Cuming, ar gyfer *Series 3 Holy Communion* Eglwys Loegr. Bu'r Dr. Cuming yn rhoi cyngor arbenigol hefyd i Gomisiwn Litwrgaidd Yr Eglwys yng Nghymru yn y 1970au.

Y mae pawb ohonom a fu'n gweithio arni yn gobeithio ac yn gweddio y bydd y ffurf derfynol, newydd hon ar y Cymun Bendigaid yn foddion addas i faethu ac i gryfhau pobl Crist ar y ddaear ac i roi gogoniant a moliant a diolch i'r un Duw tragwyddol, Dad, Mab ac Ysbryd Glân.

*'Bydded trugaredd yr Arglwydd ein Duw arnom;
llwydda waith ein dwylo inni,
llwydda waith ein dwylo.'*

+David Thomas

Cyflwyno'r Ewcharist

Ers dyddiau cynnar Cristnogaeth, defnyddiwyd y gair Ewcharist (sy'n dod o'r gair Groeg am 'ddiolchgarwch') i ddisgrifio'r sacrament a sefydlodd Iesu Grist yn ystod y swper olaf. Ceir pedwar adroddiad am darddiad yr Ewcharist yn y Testament Newydd (Mathew 26: 26 - 29, Marc 14: 22 - 25, Luc 22: 15 - 20, ac 1 Corinthiaid 11: 23 - 26). Er bod mân wahaniaethau rhyngddynt, y mae'r adroddiadau'n cytuno i Grist, ar y noson cyn ei groeshoelio, gyfarfod â'i ddisgyblion am bryd olaf o fwyd. Wrth ddilyn defodau bwyta sanctaidd yr Iddewon, soniodd Iesu am y bara fel ei gorff a'r gwin fel ei waed o'r Cyfamod newydd. Yn yr adroddiad ysgrifenedig cynharaf, sef un Paul yn 1 Corinthiaid, fel yn yr Efengyl yn ôl Luc, cofnodwyd i'r Arglwydd orchymyn i'w gyfeillion gadw'r defodau hyn er cof amdano. Ystyrid gweinyddu'r Ewcharist, felly, yn rhan hanfodol o addoliad yr eglwys fore, a pharhaodd Cristnogion hyd heddiw i gadw'r ddefod.

9

Gelwir yr Ewcharist wrth wahanol enwau – Swper yr Arglwydd, y Cymun Bendigaid a'r Offeren. Y mae'r gwahanol enwau hyn yn ein hatgoffa fod gwahanol ddehongliadau o ystyr yr Ewcharist, nid yn unig rhwng y naill enwad Cristnogol a'r llall ond hefyd oddi mewn i enwadau unigol. (Y mae hynny'n sicr yn wir amdanom ni, Anglicaniaid!) Y pwynt pwysig, fodd bynnag, yw mai'r Ewcharist o hyd, i aelodau'r mwyafrif o'r enwadau Cristnogol, yw prif fynegiant defosiwn.

Yn Yr Eglwys yng Nghymru, y mae gennym drefn newydd ar gyfer yr Ewcharist – *Cymun Bendigaid 2004*. Nid yw cymryd rhan yng ngweinyddiad y Cymun yn beth newydd i chwi. Y mae wedi chwarae rhan bwysig yn eich addoli. Ond gall dyfodiad y ddefod ewcharistig awdurdodedig newydd hon fod yn gyfle i blwyfi ddatblygu a thyfu. Mae'n gyfle inni ailymweld â hen diriogaeth gyfarwydd, yn ogystal â mentro ar sialens newydd.

Ceisiwn wneud yr Ewcharist yn achlysur sy'n deilwng o'n galwedigaeth. I'r rhan fwyaf o bobl, yr achlysur hwn, o leiaf unwaith bob wythnos, fel rheol, pan gyfarfyddwn i *wneud yr Ewcharist*, yw wyneb cyhoeddus yr Eglwys, ei ffenestr siop, fel petai. Gall y pwyntiau a ganlyn fod o gymorth i chwi fel plwyf i ystyried eich dull o gyflwyno'r Ewcharist fel y brif weithred o addoli yn eich cymuned. Gan ddefnyddio strwythur yr Ewcharist fel arweiniad, gadewch inni yn awr archwilio rhai o'i brif nodweddion ac ystyried sut i'w gyflwyno.

Cyn y Gwasanaeth

Amser yr Ewcharist

Y mae hwn yn fater hanfodol bwysig y dyddiau hyn. Nid oes amser penodedig sy'n addas i bob plwyf. Dylai pa amser bynnag a ddewiswch alluogi'r nifer fwyaf posibl o bobl i ddod ynghyd. Pam nad gwneud arolwg plwyf a gofyn i'r bobl pa amser, yn eu barn hwy, yw'r amser gorau ar gyfer Cymun y Sul? Mewn plwyfi lle y mae mwy nag un gweinyddiad, neu mewn plwyfi sydd

wedi'u grwpio, dylid ystyried yn fanwl sut i wneud y defnydd gorau o offeiriaid ac o rai eraill sy'n cymryd rhannau allweddol yn y gwasanaeth.

Sacrament Undod

Dylai'r Cymun Bendigaid ym mhob plwyf fod yn arwydd gwirioneddol o'n hundod yng Nghrist. Gall gweinyddu'r Cymun yn rheolaidd mewn un lle adeiladu a chryfhau plwyfi mawr lle y mae mwy nag un eglwys, neu blwyfi wedi'u grwpio.

Dyfod Ynghyd

Y mae hyn yn dechrau, nid yn y man a nodir yn y llyfr gwasanaeth, ond wrth i'r bobl ddod i mewn i'r eglwys. Dylai edrych ymlaen mewn ysbryd moliannus fod yn rhan o'r dyfod ynghyd, a dylai awyrgylch croesawgar a pharatoi gweddigar gyfoethogi'r amser cyn y Cymun i'r offeiriad a'r bobl. Bydd paratoi'n ofalus yr adeilad a'r pethau sydd i'w defnyddio yn yr addoliad yn gymorth i wneud hyn.

Nid rhyw ychydig funudau cyn i'r gwasanaeth gychwyn y dylid dewis emynau na gofyn i bobl ddarllen y llithoedd neu arwain y gweddïau. Dylid trefnu'r pethau pwysig hyn ymlaen llaw.

Gweinidogion Croeso

Cyfraniad gwerthfawr y rhain yw cyfarch a chroesawu pobl, yn enwedig mewn plwyfi lle y bydd ymwelwyr yn ymuno'n aml â chynulleidfa arferol y Sul. Bydd teuluoedd ifainc a hwyrddyfodiaid yn gwerthfawrogi gwên o groeso ac anogaeth. Gall y gweinidogion croeso roi cymorth amhrisiadwy yn ystod y gwasanaeth ac ar ei ôl. Nid yr un peth mo'r weinidogaeth hon â rhannu llyfrau neu wneud y casgliad. Yn wir, y mae rhywbeth i'w ddweud dros ei gwahanu oddi wrth y tasgau hyn, yn enwedig mewn eglwysi lle y gall fod nifer sylweddol o ymwelwyr.

Pwy sy'n cymryd rhan yn y Cymun?

Ym mhob plwyf y mae pobl sy'n cymryd rhan yng ngweinyddiad y Cymun. Er y dylai'r offeiriad bob amser lywyddu, nid yw hynny'n golygu mai ef ddylai wneud popeth. Y mae pawb yn cyfrannu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, a dylid diffinio'r cyfraniadau a pharatoi'n ofalus atynt. Peth da yw cynnal ymarferion i'r rhai hynny sy'n cymryd rhannau amlwg (e.e. clerigion, corau, gweision allor). Y mae ymarfer yn ofalus yn sicrhau y cynhelir y litwrgi yn bwrpasol a gweddïdd ac urddasol.

Y Gynulleidfa

Nid gwrandawyr yn unig mo'r gynulleidfa. Y mae ei haelodau'n cymryd rhan ym mhob agwedd o'r Cymun. Yn *Y Cymun Bendigaid 2004* cynhwyswyd geiriau newydd i'w dweud gan y bobl. Bydd arnynt angen amser ac anogaeth i ddweud neu ganu'r geiriau hyn yn hyderus a brwdfrydig.

Distawrwydd yn ystod y Litwrgi

Oni chynorthwyr pobl i'w werthfawrogi, gall distawrwydd beri annifyrrwch. Y mae'n fuddiol treulio peth amser yn archwilio rhannau distaw y litwrgi. Mae yna gyfnodau o fyfrio, o wrando ac o addoli, a dylid rhoi rhywfaint o eglurhad ar bob un. Pan y mae'r litwrgi'n awgrymu cyfnod o ddistawrwydd, mae'n bwysig fod pawb yn aros yn dawel ac yn llonydd am ysbaid, gan gynnwys yr offeiriad, y gweision allor a'r côr. Dylai pawb fod yn barod i wasanaethu Duw yn yr ysbeidiau byr ond cyfoethog hyn o gydweiddio distaw.

Y Defodau Rhagarweiniol

Gellir defnyddio'r gwahanol ddewisiadau yn eu tro i nodi tymhorau litwrgaidd y flwyddyn. O'u defnyddio'n ddychmygus ac yn sensitif, gall y dewisiadau arwain y gynulleidfa at y colect a gweinidogaeth y Gair. Nid y rhagarweiniad i'r Cymun yw'r lle i roi anerchiad maith ar drefn y gwasanaeth neu ar y tymor eglwysig : gadawer i'r litwrgi siarad drosti'f hun. Os oes angen cyhoeddi rhywbeth arbennig, neu groesawu rhywrai arbennig, gellir gwneud hynny yn ystod y cyhoeddiadau.

Litwrgi'r Gair

Llithiadur Cyffredin Diwygiedig

Y mae'r Llithiadur Cyffredin Diwygiedig yn drysorfa o ddarlleniadau o'r Ysgrythur i'w defnyddio yn y Cymun. Mae'n cymryd peth amser i ddod i arfer ag ef, ond y mae'r ymdrech yn werth chweil. Y mae llawer ffordd o ddarparu'r testun i'r gynulleidfa. Gwelwch beth sydd orau i chwi. Anogwch y bobl i ddarllen y darnau o'r Ysgrythur ar gyfer y Sul cyn dod i'r gwasanaeth. Gallech, er enghraifft, argraffu'r darlleniadau ymlaen llaw ar y daflen newyddion wythnosol.

Peth da yw annog y bobl i gydwrando ar y darlleniadau. Y mae rhywbeth arwyddocaol a grymus, er enghraifft, mewn sefyll i gydwrando ar y darlleniad o'r Efengyl. Ceisiwch annog y bobl i edrych i gyfeiriad y darllenydd wrth iddynt wneud hynny. Yn aml iawn, pan gyhoeddir yr Efengyl, y mae pobl â'u pennau yn eu llyfrau gwasanaeth – pawb, fel petai, yn darllen ei efengyl ei hun. Pan ddigwydd hyn, collir gafael ar natur gorfforaethol y litwrgi.

Y mae Atodiad 1 ar dudalen 15 yn esbonio'r berthynas rhwng y darlleniadau a'i gilydd.

Darllenwyr

Dylai Darllenwyr bob amser baratoi'n fanwl. Yn y litwrgi, dylid darllen Gair Duw'n gyhoeddus yn glir ac yn urddasol. Dewiswch ddarllenwyr da a gwnewch y ddarllenfa mor amlwg â'r allor. Cynorthwywch bawb sy'n darllen i fabwysiadu'r un dull. Mae pobl yn gwerthfawrogi cael gwybod pa bryd i symud at y ddarllenfa a sut i gyflwyno ac i ddiweddu darlleniad. Peidiwch â defnyddio'r ddarllenfa i ddim ond y rhannau hynny o'r litwrgi y mae a wnelont â chyhoeddi'r Gair. Y mae defnyddio llithiadur a llyfr efengylau yn rhoi urddas ar gyhoeddi'r Gair. Parchwch lyfrau o'r fath, yn ogystal â gofalu amdanynt.

Dau ddarlleniad weithiau yn lle tri?

Weithiau, bydd yn well cael un darlleniad yn unig yn ychwanegol at yr Efengyl. Yn y Llithiadur Diwygiedig, dim ond un darlleniad sy'n ymwneud â thema'r darlleniad o'r Efengyl. Anwybyddwch y llall. Gellir defnyddio amrywiaeth o salmau ac emynau a chaneuon yn y rhan hon o'r litwrgi. Beth bynnag y byddwch yn ei ddewis, gwnewch yn siŵr ei fod yn cyfateb i'r darlleniadau, ac nad yw yn rhy hir.

Bonllef yr Efengyl

Mae'n llawer gwell defnyddio'r moliant hynafol a phrydferth sydd yn y gair *Alelwia* na chanu emyn arall eto! Mae'n rhoi lliw ac egni i'r litwrgi. Mae amrywiaeth gynyddol o siantiau Alelwia yn ymddangos y dyddiau hyn, ac mae'n werth eu hystyried. Y mae hefyd fonllefau arbennig ar gael i'w defnyddio yn ystod y Garawys, pan fyddwn, yn ôl y traddodiad, yn hepgor yr Alelwia.

Yr Ymbiliau

Dylid paratoi'r Ymbiliau yn hynod o fanwl. Dylid darllen yn ofalus Nodyn 11, sy'n rhoi cyfarwyddyd ynglŷn â lle'r Ymbiliau yn nhrefn y gwasanaeth, a hefyd Atodiadau III a IV. Adnodd defnyddiol iawn yw *Leading Intercessions / Arwain Ymbiliau* gan Raymond Chapman, a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Cynthia Davies.

Y Tangnefedd

Bydd yn rhaid rhoi ystyriaeth fanwl i'r Tangnefedd, er mwyn cynorthwyo pobl i'w wneud yr hyn ydyw, yn hytrach na dim ond ystum gyfeillgar at y rhai yr ydym ni yn eu hadnabod. Ar y llaw arall, gall rhoi gormod o bwyslais ar y Tangnefedd, neu roi gormod o amser iddo, ddifetha cydbwysedd patrwm y Cymun.

Litwrgi'r Cymun

Ni ddylid byth ystyried mai litwrgi'r Cymun yw rhan bwysicaf y gwasanaeth. Y mae litwrgiau'r Gair a'r Cymun yn gyfwerth â'i gilydd, ac y mae'r naill yn anghyflawn heb y llall.

12

Dewiswch yn ofalus rhwng y dewisiadau yn *Y Cymun Bendigaid 2004*. Peidiwch â chael eich temtio, er enghraifft, i ddefnyddio gweddi ewcharistaidd wahanol bob wythnos. Bydd ar gynulleidfaoedd angen ymgyswrtu â'r gwahanol destunau, ac y mae parhad yn bwysig. Y mae yn *Y Cymun Bendigaid 2004* saith gweddi ewcharistaidd. Bydd angen egluro rhywfaint arnynt, wrth gwrs. Bydd hefyd angen ystyried yn ofalus pa bryd y bydd hi'n addas defnyddio pob un.

Gall gwahanol dymhorau'r flwyddyn eglwysig roi cyfle i ddefnyddio'r gwahanol destunau sydd yn y llyfr. Os yw cynulleidfaoedd i weddio'r litwrgi yn iawn, bydd yn rhaid iddynt ymgyswrtu â'r testunau a'u gwneud yn eiddo iddynt hwy eu hunain. Fe gymer hynny beth amser. Bydd yn rhaid dysgu testunau a genir, fel y bydd pawb yn teimlo'n hyderus. Peth da yw i'r côr a'r gynulleidfa ymarfer gyda'i gilydd wrth ddysgu gosodiadau newydd. Pam nad gwahodd y bobl i ymarfer anffurfiol, fel y gall pawb ddysgu'r geiriau a'r gerddoriaeth newydd?

Yr Offeiriad

Yn ystod litwrgi'r Cymun, gan yr offeiriad y mae'r rhan amlycaf mewn gair a gweithred.

Bydd yn rhaid i offeiriad fod yn gwbl gyfarwydd â'r testunau. Dylid eu dweud neu eu canu yn hyglyw ac yn hyderus ac yn urddasol. Dylai pob ystum corff fod yn syml, ac yn weladwy a dealladwy i bawb.

Bydd osgo a symudiadau'r corff o flaen allor sy'n wynebu'r dwyrain yn wahanol i'r rhai o flaen allor sy'n wynebu'r gorllewin. Y mae maint yr adeilad hefyd yn bwysig o safbwynt ystum. Os ydych, er enghraifft, yn dyrchafu'r rhoddion sanctaidd yn ystod y weddi ewcharistaidd er mwyn i'r gynulleidfa gael eu gweld, sicrhewch eu bod yn weladwy i bawb.

Yr Allor neu'r Bwrdd Sanctaidd

Yr allor yw'r canolbwynt yn ystod litwrgi'r Cymun. Efallai ichwi sylwi fod tuedd mewn rhai lleoedd i roi cymaint o bethau ar yr allor nes ei bod yn anodd gweld y plât a'r cwpan. Ceisiwch osgoi rhoi dim ar yr allor ar wahân i'r llestri sy'n dal y bara a'r gwin ac, o reidrwydd, y llyfr gwasanaeth neu'r llyfr allor. Er bod hyn bob amser yn bwysig, mae'n bwysicach fyth pan ddefnyddir allor sy'n wynebu'r gorllewin.

Defnyddiwch bob amser lieiniau allor sy'n lân ac yn gyfan. Fyddem ni byth yn breuddwydio defnyddio hen liain budr ar ein bwrdd cinio, hyd yn oed os rhoddwyd ef yn anrheg inni gan ryw hoff fodryb flynyddoedd maith yn ôl. Archwiliwch eich allor. Yn aml, byddwn yn gorchuddio gwaith prydfarth mewn maen neu goed gan lieiniau neu orchuddion allor digon blêr. Gall allor lefaru'n rymus drosti'i hun pan wisgir hi ar gyfer y Cymun mewn llieiniau gwyn, glân. Dro arall, gellir ei gadael yn noeth i arddangos ei phrydfarthwch a'i symlrwydd cynhenid.

Y Weddi Ewcharistaidd

O'i deialog agoriadol, drwy'r *Sanctus* a'r *Benedictus*, hyd at yr Amen ar ei diwedd, dyma weddi ddiolch fawr yr Eglwys.

Dywed Nodyn 16 nad yw'n addas newid osgo yn dilyn y *Benedictus*, gan fod angen pwysleisio undod y weddi. Efallai y bydd yn rhaid ymdrin yn sensitif â hen arferion lleol yn y mater hwn. Dim ond drwy hyfforddiant gofalus ac anogaeth y deugn i sylweddoli mai un diolch mawr yr ydym i gyd yn rhan ohono yw'r weddi hynafol hon yn ei hanfod. Y mae i'r offeiriad a'r bobl eu rhan yn y dwyn i gof gerbron Duw fawrion weithredoedd ein hiachawdwriaeth. Dyma destun ein diolch; dyma sy'n tanio ein cof; dyma *Ewcharist*. Gellir archwilio ac esbonio diwinyddiaeth yr Ewcharist mewn grwpiau astudio, mewn pregethau ac mewn erthyglau yng nghylchgrawn y plwyf. Y mae saith gweddi ewcharistaidd yn *Y Cymun Bendigaid 2004* – mwy na digon o ddeunydd i'w astudio wrth inni geisio mynegi a chyd-ddathlu'r traddodiad ewcharistaidd mawr a dderbyniasom.

Ar ddiwedd y weddi ewcharistaidd daw'r **AMEN** mawr. Mae hwn yn fwy na dim ond ymateb syml. Hyd nes y dywedir yr Amen, y mae'r weddi'n anghyflawn. Anogwch bawb sy'n bresennol i wneud i'r Amen atseinio drwy'r adeilad. Ac yna addolwch mewn distawrwydd, er mwyn sylweddoli arwyddocâd aruthrol yr hyn yr ydych newydd ei wneud.

Rhoddion Sanctaidd Duw i Bobl Sanctaidd Duw

Y mae ein cyfranogi yn yr Ewcharist yn ein harwain i dderbyn y Cymun Bendigaid. Yn y weithred fawr hon o addoli y mae Duw yn ei roi ei hun inni. Yr ydym yn rhannu corff a gwaed yr Arglwydd atgyfodedig.

Y Distawrwydd ar ôl Cymuno

Gydol drama'r litwrgi, cyffyrddwyd â'n holl synhwyrâu – golwg, clyw, arogl, cyffyrddiad, blas. Y gobaith yw i'n calon a'n meddwl gael eu deffro a'u cyffroi, ac i'r person cyfan fod yn rhan o'r weithred aruchel o addoli. Yn awr, a ninnau'n eistedd yn dawel gyda'n gilydd, yr ydym yn disgwyl wrth Dduw. Nid yw sŵn plant yn tarfu ar ansawdd y distawrwydd hwn.

Yr Anfon Allan

Mae'r ymadrodd hwn yn ei egluro'i hun. Dyma ddiwedd yr Ewcharist. Anfon allan ydyw i wneud rhywbeth – i fyw bywyd yr Arglwydd atgyfodedig. Bydded hwn y peth olaf a wnewch ac a ddywedwch gyda'ch gilydd. Os oes bendith o'i flaen, sefwch ar gyfer yr Anfon Allan. Nid oes angen emyn arall i fod yn gyfeiliant i ymadawriad yr offeiriad a'r côr. Mae'r gweddio a'r moliannu drosodd. Dylid canu'r emyn olaf ar ôl y distawrwydd sy'n dilyn y Cymun.

I gloi, ac yn gyffredinol ...

Y mae cyhoeddi *Y Cymun Bendigaid 2004* yn gyfle i ddysgu am arwyddocâd yr Ewcharist ac i fyfyrno arno. Y mae, wrth gwrs, lawer dull o wneud hyn. Un ffordd dda o ddechrau fyddai

defnyddio'r penderfyniad i lunio *Y Cymun Bendigaid 2004*, neu'r broses a arweiniodd at y penderfyniad hwnnw, i archwilio gyda'n gilydd paham yr ydym yn gweinyddu'r Ewcharist, ystyr y gwahanol rannau sydd i'r ddefod, ac felly ymlaen.

Gweinyddu'r Ewcharist yw prif weithred litwrgaidd y rhai sydd wedi'u bedyddio. Gall archwilio'i ystyr a'i ddyfnderau ein cynorthwyo i'n deall ein hunain fel Eglwys. Gelwir yr Eglwys i fod yn llawer o bethau. Y dyddiau hyn y mae ein galwedigaeth genhadol yn cael lle blaenllaw yn ein meddyliau a'n gweddiâu. Os yw'r Eglwys i ddwyn yr Efengyl i eraill, rhaid iddi ei hadnabod ei hun. Pwy ydym ni fel Eglwys? Pam ein bod yn bodoli o gwbl? Gall plwyf ddysgu llawer, a chael ei adnewyddu hefyd, drwy dreulio peth amser yn ystyried ystyr yr Ewcharist.

Efallai yr hoffech ddechrau gyda'r Cyngor Plwyfol Eglwysig – byddai'n sicr yn bywiocáu'r agenda arferol! Mae'n hawdd iawn i'n litwrgi gael ei gorlenwi â phob math o bethau sy'n cuddio gwir ystyr yr Ewcharist. Dyma gyfle da i docio er mwyn tyfu a datblygu.

Mae'r **Cylchgrawn Plwyf** yn lle amlwg i gynnwys myfyrdodau clir a dychmygus ar yr Ewcharist.

Cymun dan Gyfarwyddyd: gydag esboniad ar bob adran. Pwrpas hyn yw cynorthwyo pawb sy'n cymryd rhan i ddeall eu swyddogaeth yn y gweinyddiad, ac atgoffa pobl o lanw a thrai y litwrgi. Rhydd gyfle i egluro paham y gwnawn hyn a'r llall. Y mae llawer a anghofiasom – neu, efallai, nas deallasom erioed – ynglŷn â gweinyddu'r Ewcharist.

Os ydych yn newid o wasanaeth Cymun *Llyfr Gweddi Gyffredin 1984* i *Y Cymun Bendigaid 2004*, mae'n hanfodol dechrau gyda pheth hyfforddiant ac esbonio ymlaen llaw. A chofiwch, hyd yn oed os ydych eisoes wedi dechrau defnyddio'r gwasanaeth newydd, nid yw byth yn rhy hwyr i archwilio ac esbonio a dysgu. Yn wir, y mae'r pethau hyn yn hanfodol os yw ein gweinyddiadau litwrgaidd i fod yn bethau byw.

Y mae pobl yn hoffi cael gwybod paham y mae pethau yn cael eu dweud neu eu gwneud, a beth yw ystyr hyn ac arall. Gall addysg ewcharistaidd sylfaenol o'r fath gynorthwyo pobl i weddio'r litwrgi yn hyderus a ffyddiog. Gan ein bod yn credu fod gan bawb sydd wedi'u bedyddio ran i'w chwarae yn y litwrgi, bydd ehangu eu gwybodaeth yn eu cynorthwyo i chwarae eu rhan yn llawn. A dyna eu hawl drwy fedydd.

Yn olaf, cofiwch fod derbyn gwybodaeth, yn ystyr Gristnogol yr ymadrodd, yn golygu llawer mwy na derbyn nifer o ffeithiau! Proses ysbrydol yw dysgu yn yr ystyr Gristnogol, ac yn y broses honno yr ydym yn ddibynnol, mewn pob math o ffyrdd, y naill ar y llall. Y nod yw ein dwyn i gyd i fod ar ddelw Crist, yn union fel y caniatodd ef iddo'i hun yn ei ymgnawdoliad gael ei ffurfio ar ein delw ni, ac y caniatâ hynny o hyd yn y modd yr estynnwyd yr ymgnawdoliad yn y sacramentau.

Irving Hamer


Atodiad 1

Llithiadur y Prif Wasanaethau


Fel rheol, gweithreda mewn un o dair ffordd.

Ar brif wyliau a throbwytiau'r flwyddyn Gristnogol

mae'r darlenniadau i gyd yn 'perthyn':



Yn ystod tymhorau allweddol (Adfent, Yr Ystwyll, Garawys, Y Pasg a'r Deyrnas) **o ddefnyddio'r set sy'n 'perthyn' yn ystod yr Haf a'r Hydref:**




Mae'r darlenniadau o'r Hen Destament (a'r Salm) yn ymwneud â'r Efengyl. Mae'r darlenniadau o'r Testament Newydd ar wahân. Y maent naill ai'n dilyn y naill y llall neu ynteu ar themâu tymhorol.

Yn rhymer y Pasg gellir darllen y darlenniad o Lyfr yr Actau yn lle'r darlenniad o'r Hen Destament.

O ddefnyddio'r set 'Ddilynol' (neu 'led-ddilynol') yn ystod yr Haf a'r Hydref,

y mae'r tri darlenniad yn annibynnol ar ei gilydd ac yn dilyn y naill y llall o Sul i Sul:



Y mae'r Salm bob amser yn ymwneud â'r darlenniad o'r Hen Destament.

Cerddoriaeth yn yr Ewcharist

16

Mae sôn am gerddoriaeth yn y litwrgi yn golygu sôn am holl brofiad clywedol addoli. Yn ei ffurf fwyaf elfennol, siapio synau a distawrwydd oddi mewn i amser a gofod yw cerddoriaeth. Felly, wrth ystyried lle cerddoriaeth yn *Y Cymun Bendigaid 2004*, rhaid inni feddwl am strwythur a siâp y gweinyddiad yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na dod o hyd i gyfres o fylchau yn y gwasanaeth y gellir rhoi eitemau cerddorol ynddynt. Yn wir, gall gweinyddu'r Cymun ar lafar, pan wneir hynny gyda sensitifrwydd i siâp sŵn a distawrwydd, fod yn 'gerddorol' iawn; yn union fel y gall defnyddio gofod ac ystum mewn modd syml ond cryf fod yn dra 'dramatig'.

Nid profiad clywedol yn unig, wrth gwrs, yw cerddoriaeth: gall fod yn llawn mynegiant, gall gyffroi'r teimladau, gall ysbrydoli, gall alluogi rhannu ac adeiladu cymuned, gall fynd â ni ymhell y tu hwnt i ystyr geiriau. Y mae bob amser yn fwy na rhyw ddyfais i roi rhywbeth i bobl i'w wneud neu i lenwi distawrwydd annifyr.

Y mae mwy nag un ffordd o ddewis a defnyddio cerddoriaeth. Rhaid i bob cymuned o addolwyr (yr offeiriad, y cerddorion a'r bobl) fynd i'r afael â'r cwestiynau sy'n codi, a bod yn barod i archwilio'r posibiliadau ac i wneud camgymeriadau wrth chwilio am yr ateb gorau. Rhaid i'r addoliad a'r gerddoriaeth fel ei gilydd fod yn 'eiddo' i'r gynulleidfa gyfan. Rhaid i bob cynulleidfa ddewis a defnyddio cerddoriaeth sy'n cyflawni ei hanghenion ac yn cyfateb i'w hadnoddau, ac sydd – uwchlaw popeth – yn ei galluogi i addoli. Mewn Eglwys lle nad oes ond ychydig o bobl yn mynychu'r un gwasanaeth ar yr un amser bob Sul, y mae hynny'n gryn her. I wynebu'r her honno, rhaid wrth amser ac amynedd ac ymroddiad, ond gall y canlyniad ein cyfoethogi a'n bywiogi, hyd yn oed os yw'r gerddoriaeth yn syml iawn.

Siapio a mynegi'r Ewcharist

Rhennir y Cymun newydd yn saith adran eglur sy'n amrywio'n fawr o safbwynt maint a chynnwys. Dylem ofyn sut y gallwn ddefnyddio cerddoriaeth yn fwy effeithiol

- i ddyfod ynghyd yn enw'r Arglwydd
- i gyhoeddi Gair Duw
- i weddio gyda'r Eglwys
- i rannu Tangnefedd Duw
- i roi Diolch
- i rannu rhoddion Duw
- i gael ein hanfon allan yn nerth Duw?

Gall dyfod ynghyd, cyhoeddi, gweddïo, rhannu, diolch ac anfon allan alw am wahanol ffyrdd o ddefnyddio cerddoriaeth, neu hyd yn oed am wahanol fathau o gerddoriaeth. Yn fwy na hynny, wrth Ddyfod Ynghyd, yr ydym yn datgan edifeirwch, yn diolch i Dduw ac yn gweddïo: sut y mae mynegi'r pethau hyn orau mewn cerddoriaeth? A sut y gallwn drefnu Gweinidogaeth y Gair fel bod y darlleniad o'r Efengyl yn uchafbwynt iddi? O safbwynt mwy ymarferol, sut – mewn adran ac ynddi gynifer o eiriau – y gallwn ddefnyddio cerddoriaeth i'n cynorthwyo i ganolbwyntio ar Air Duw bob cam o'r darlleniad o'r Hen Destament i ddiwedd adrodd y Credo?

Y mae'n rhaid inni ystyried nid yn unig amrywiol swyddogaethau cerddoriaeth mewn addoliad, ond hefyd, yn aml, amrywiaeth oed, amrywiaeth chwaeth (mewn addoli ac mewn cerddoriaeth) ac amrywiaeth ieithoedd. Er bod yn rhaid inni fod yn ymwybodol o'r pethau hyn, bydd yn gymorth, efallai, canolbwyntio ar sut y gallwn addoli Duw fel cymuned amrywiol, yn hytrach nag ar blesio'r amrywiaeth chwaeth sy'n perthyn i bobl Dduw. Sut y gallwn alluogi pawb i fod yn rhan o gymuned weddigar, fyw, gan dderbyn hefyd y bydd yn rhaid i bawb gyfaddawdu rhywfaint?

Distawrwydd a sŵn: pa bryd i ddefnyddio cerddoriaeth?

17

Mae rhuddellau *Y Cymun Bendigaid 2004* yn awgrymu defnyddio emynau, caneuon a salmau mewn pum lle. Mewn chwech lle yn y gwasanaeth gelwir am ddistawrwydd, ac mae'r nodiadau rhagarweiniol yn cymeradwyo distawrwydd mewn tri lle arall. Nid yw'r rhuddellau na'r nodiadau yn awgrymu canu unrhyw destunau eraill; ac nid oes unrhyw gyfarwyddyd parthed defnyddio cerddoriaeth. Golyga hynny fod gan y gymuned sy'n addoli nifer o benderfyniadau i'w gwneud.

Sut y dylem ddefnyddio

- emynau dewisol, caneuon a salmau
- testunau a ddywedir gan bawb
- deialogau rhwng y gweinyddwr (offeiriad, diacon, darllenydd, ymbilydd)a'r bobl
- testunau a ddywedir gan y gweinyddwr ei hun
- distawrwydd?

Gellir defnyddio cerddoriaeth

- i siapio'r Dyfod Ynghyd (dod i mewn, edifarhau, moliannu, gweddïo);
- i danlinellu Cyhoeddi'r Gair (myfyrdod ar y darlleniad cyntaf, bonllef o flaen yr Efengyl, datgan y Ffydd);
- i bwysleisio geiriau'r Tangnefedd, ac i fod yn gyfeiliant i baratoi'r rhoddion;
- i fynegi diolch, ac i uno'r Weddi Ewcharistaidd;
- i'n paratoi ar gyfer rhannu'r Rhoddion, ac i roi diolch ar ôl y Cymun;
- i bwysleisio anfon allan pobl Dduw i wneud gwaith Duw yn y byd.

Y mae'r tabl yn Atodiad 1 ar dudalen 21 yn dangos pa bryd y gellir defnyddio cerddoriaeth a distawrwydd yn y Cymun.

Mae'n bwysig peidio â theimlo fod yn rhaid canu popeth y mae'n bosibl ei ganu. Ar y llaw arall, colli cyfle yw dweud y Cymun, gydag emynau yn unig. Dewiswch y manau (uchel ac

Cerddoriaeth yn yr Ewcharist

isel) lle y gall cerddoriaeth gyfrannu at y gwasanaeth; gall y rhain amrywio o'r naill weinyddiad i'r llall, neu o dymor i dymor.

Dylai fod pwrpas i'r ysbeidiau o ddistawrwydd. Y mae o gymorth i'r gynulleidfa gael gwybod pa ysbeidiau o lonyddwch a myfyrdod a fydd yn rhai hir, a pha rai fydd yn rhai byr. Gall rhai ysbeidiau distaw olygu absenoldeb geiriau, ond nid absenoldeb synau. Gellir rhoi siâp i'r ysbeidiau hir gyda darnau o gerddoriaeth gan offerynnwr neu offerynwyr neu ddarnau a genir gan ganwr neu gôr. Neu gall darn byr o gerddoriaeth gynorthwyo i baratoi ar gyfer ysbaid hwy o lonyddwch a myfyrdod, neu fod yn arwydd fod yr ysbaid ar fin dod i ben. Yn ystod yr ymbiliau, fe all ymateb gweddol hir ar gân fod o gymorth.

Gellir cyfoethogi'r testunau traddodiadol (y Kyrie, y Gloria, y Credo, y Sanctus, y Benedictus a'r Agnus Dei) drwy eu canu. Y mae'r Credo, fodd bynnag, yn faith. Dylai fod yn ddatganiad cadarnhaol, nid yn faich ar y gynulleidfa. Mae'n bosibl dweud y Credo arall, byrrach, ac ychwanegu ato emyn mydryddol sy'n mynegi ffydd (e.e. emyn John Henry Newman, 'Gwir a chadarn mi a gredaf'). Cyfansoddodd Christopher Idle Gloria mydryddol (a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan R. Glyndwr Williams). Y mae dewis helaeth, mewn gwahanol arddulliau, o osodiadau ar y Kyrie, y Sanctus a'r Agnus Dei. Rhoddir cyfarwyddyd pellach isod.

18

Dylai'r gynulleidfa gyfan i gymryd rhan yn y Gloria, y Fonllef o flaen yr Efengyl a'r Credo, ac, yn arbennig, yng ngherddoriaeth y Weddi Ewcharistaidd. Os oes nifer o gantorion yn barod i baratoi cerddoriaeth arbennig, fe all fod yn addas iddynt hwy ganu'r Kyrie a'r Agnus Dei ar rai achlysuron, ynghyd â salm, efallai, neu ryw ymateb arall ar ôl y darlleniad cyntaf..

Y peth gorau, mae'n debyg, fyddai i bawb ganu'r emynau eraill, a'r caneuon a'r salmau wrth ddod i mewn ac wrth baratoi'r rhoddion ac ar ôl y Cymun. Y mae dewis helaeth o ddeunydd mewn amrywiol arddulliau ar gyfer cynulleidfaoedd o bob maint a chwaeth. Fodd bynnag, ar rai achlysuron gallai gwneud rhywbeth gwahanol fod yn arwyddocaol. Y mae cyfle, er enghraifft, i wahaniaethu rhwng tymhorau. Os oes gennyich gantorion a fedr ganu plaengan, fe all y byddai antiffonau'r Adfent, neu emyn Adfent mewn plaengan, yn addas ar ddechrau'r gwasanaeth yn ystod y tymor hwnnw, ac yn ystod y Garawys byddai llafarganu'n syml salm o edifeirwch yr un mor drawiadol. Byddai mwy o rym wedyn i emynau'r Nadolig a'r Pasg.

Bydd rhai darnau cerddorol, yn enwedig y gosodiadau a'r emynau a'r caneuon hŷn, yn defnyddio'r testun 'anghywir'. O ymarfer gofal, ni ddylai symud o'r ffurf 'you' yn Saesneg yn y testun llafar i'r ffurf 'thou' yn y testun cerddorol fod yn anachronistaidd, na symud o Saesneg i Gymraeg neu Ladin, Groeg neu Xhosa, fod yn anghyffyrddus. Y mae'r un peth yn wir am newid arddull gerddorol: fel yn achos *collage* darluniadol, gall doethineb (parthed cyd-destun, cynllunio ac amseru) beri i hyd yn oed yr idiomau mwyaf annhebyg i'w gilydd ffurfio cyfanwaith trefnus.

Cerddoriaeth mewn Eglwys ddwyieithog

Y mae arwahanrwydd diwylliannol Yr Eglwys yng Nghymru yn amlwg ym mha iaith bynnag y mae'r gymuned yn addoli ynddi. Y mae gan gynulleidfaoedd Cymraeg a Saesneg eu storfa eu hunain o ddarnau cerddorol, a rhaid dangos sensitifrwydd pan ddeuant ynghyd mewn gweinyddiad dwyieithog. Un her sy'n ein hwynebu yn ystod y blynyddoedd nesaf yw adeiladu storfa ddwyieithog o ddarnau cerddorol y gall pawb fod yn hyderus a thawel eu meddwl ynglŷn â hi.

Mae Ysgol Frenhinol Cerddoriaeth Eglwysig (RSCM) yn cyhoeddi gosodiad dwyieithog llawn o'r prif destunau: *Cymun y Cymry / The Welsh Eucharist*. Gellir canu'r cyfan yn Gymraeg neu yn Saesneg, neu yn y ddwy iaith ar yr un pryd. Mae gwahanol osodiadau ar gyfer y prif symudiadau, a gwahanol ffyrdd o ganu a chyfeilio. Bydd yr argraffiad cyflawn, ynghyd â CD enghreifftiol, ar gael o ganol Awst 2004. Bydd ffeiliau Acrobat (maint A5) o'r gerddoriaeth gynulleidfaol ar gael ar gyfer y rhai hynny sydd am gynnwys y gerddoriaeth yn eu llyfr gwasanaeth lleol.

Mae'r RSCM hefyd yn bwriadu cyhoeddi siantiau dwyieithog syml ar gyfer y deialogau, y gweddïau, y rhaglithiau a'r Weddi Ewcharistaidd, ynghyd ag enghreifftiau, ac – ymhen amser – flodeugerdd dwyieithog o ganeuon a salmau ac emynau ar gyfer y litwrgi.

Am fanylion pellach, cysylltwch â'r RSCM. Rhoddir manylion o dan Cyngor a Chyfarwyddyd isod.

Dewis cerddoriaeth

Gan fod llawer o'r testunau litwrgaidd yr un drwy'r holl wledydd lle siaredir Saesneg, y mae nifer fawr o adnoddau ar gyfer gweinyddiadau yn Saesneg. Un o'r casgliadau litwrgaidd mwyaf yw cyhoeddiad yr RSCM, *Music for Common Worship I-III* (Cerddoriaeth ar gyfer Gwasanaethau'r Sul, Cerddoriaeth ar gyfer y Llywydd, Arweiniad Sylfaenol; ar gael yn dair cyfrol ar wahân neu yn becyn). Gellir ffotocopi'r rhan fwyaf o'r deunydd hwn.

19

Wrth ddewis emynau, y mae adnoddau ar gael ar y we, e.e. oddi wrth *Oremus* www.oremus.org, ac arweinlyfrau mewn print, e.e. *Sing God's Glory* o'r Canterbury Press. Y mae'r adnodd electronig *Visual Liturgy 4* (Church House Publishing) yn cynnwys cyfarwyddyd a thestunau. Mae llawer o'r llyfrau emynau yn cynnwys mynegeion thematig a litwrgaidd.

I ddewis y gerddoriaeth yn ei chyfanrwydd (emynau, caneuon, cerddoriaeth fydenwog, anthemau, cerddoriaeth organ) yr arweiniad mwyaf cynhwysfawr o bell ffordd yw *Sunday by Sunday*, a gyhoeddir bob tri mis ac nad yw ond ar gael i aelodau unigol ac eglwysi sy'n aelodau cyswllt o'r RSCM.

Y mae llawer llai o gerddoriaeth newydd ar gyfer cynulleidfaeodd Cymraeg.

Y mae dau lyfr diweddar yn cynnig amrywiaeth eang o destunau a cherddoriaeth draddodiadol a newydd: *Caneuon Fydd* (Gwasg Gomer, 2001) ac *Emynau'r Llan* (Esgobaeth Bangor, 1997). Y mae mynegai litwrgaidd yn cael ei pharatoi ar gyfer *Caneuon Fydd*, a drefnwyd yn thematig. Nid oes mynegai litwrgaidd i *Emynau'r Llan*, ond fe'i trefnwyd yn litwrgaidd.

Cyngor a chyfarwyddyd

Yn ychwanegol at y cyfarwyddyd a fydd ar gael mewn gweithdai lleol yn y deoniaethau a'r esgobaethau, bwriada'r RSCM, trwy ei phwyllgorau gwirfoddol lleol, gynnal gweithdai a chyfarfodydd ar gyfer clerigion a cherddorion a phawb sy'n cymryd rhan mewn arwain gwasanaethau yn chwech esgobaeth Yr Eglwys yng Nghymru. Ceir manylion am bwy i gysylltu â hwy ar www.rscmwales.org a www.rscmcymru.org. Cydlynnydd yr RSCM yng Nghymru yw

Cerddoriaeth yn yr Ewcharist

Stuart Robinson, srobinson@rscm.com. Neu gallwch gysylltu â swyddfa ganolog yr RSCM yn Cleveland Lodge, Westhumble, Dorking RH5 6BW, 01865 872800, ymholiadau i enquiries@rscm.com. Y mae gwybodaeth sylweddol i'w chael hefyd ar brif wefan yr RSCM, www.rscm.com.

John Harper

Atodiad 1

Cyfleoedd ar gyfer cerddoriaeth a distawrwydd

Emynau dewisol, salmau a chaneuon	Testunau i bawb	Deialog	Offeiriad neu weinyddwr arall	Distawrwydd
-----------------------------------	-----------------	---------	-------------------------------	-------------

Y Dyfod Ynghyd

Cyn y cyfarchiad				
		Cyfarchiad		
	Kyrie			
				Cyn y gyffes
	Gloria in excelsis			
				Cyn y colect
			Colect	

21

Cyhoeddi'r Gair

				Wedi'r darlleniad cyntaf
		Wedi'r darlleniad cyntaf		
Wedi'r darlleniad cyntaf				
				Wedi'r ail darlleniad
		Wedi'r ail darlleniad		
Cyn yr Efengyl				
		Cyn yr Efengyl		
			Efengyl	
		Wedi'r Efengyl		
				Wedi'r bregeth
	Credo			

Yr Ymbiliau

		Ymatebion		
				Wedi pob ymbiliad Wedi'r Ymbiliau

Cerddoriaeth yn yr Ewcharist

Emynau dewisol, salmau a chaneuon	Testunau i bawb	Deialog	Offeiriad neu weinyddwr arall	Distawrwydd
-----------------------------------	-----------------	---------	-------------------------------	-------------

Y Tangnefedd

			Cyflwyno'r Tangnefedd	
		Y Tangnefedd		
Wedi'r Tangnefedd ac yn ystod parato'r rhoddion				

Y Diolch

		Ar ddechrau'r Weddi Ewcharistaidd		
			Rhaglith	
	Sanctus, Benedictus			
			Gweddi	
	Bonllef			
			Mawlgan	
	Yr Amen Mawr			
				Wedi'r Weddi Ewcharistaidd
	Gweddi'r Arglwydd			

Y Cymun

	Agnus Dei			
				Wedi'r Cymun
Wedi'r Cymun				

Yr Anfon Allan

		Rhoi diolch i Dduw		
	Gewddi ôl-gymun			
		Anfon Allan		

Plant yn yr Ewcharist

Croesawu Plant i'r Ewcharist

Y mae eglwys sy'n croesawu plant, yn derbyn eu doniau a'u gweinidogaeth, yn ymateb i'w hanghenion, yn pleidio cyfiawnder, yn ymorol am fywyd newydd, yn herio drygioni gyda chariad a gwirionedd, ac yn parhau i ddysgu gwerthoedd y Deyrnas drwy eu byw, yn eglwys sy'n newyddion da nid yn unig i'w haelodau, ond i'r byd.

Unfinished Business – Children and Churches Grŵp Ymgynghorol Gweinidogaeth Ymhlith Plant (CCBI Publications)

Os yw plant a theuluoedd ifainc i gael eu meithrin yn y ffydd ac i dyfu ynddi oddi mewn i'r eglwys, rhaid iddynt deimlo eu bod yn rhan o'r addoliad. Nid yw hyn yn golygu plentyneiddio'r addoliad, ond yn hytrach ei fod ar gael i bawb o bob oed. Dylai'r addoli fod yn brofiad ysbrydol i bawb sy'n bresennol. Y mae gan blant synnwyr cynhenid o ryfeddod a dealltwriaeth gynhenid o bresenoldeb Duw, a hyd yn oed os nad ydynt yn deall yr addoliad fe fyddant yn ymwybodol o'i awyrgylch.

Wrth sôn am addoli pob-oed, nid sôn yr ydym am blant yn addoli, gydag oedolion yn digwydd bod yn bresennol, yn cyfranogi neu'n gwyllo'n dawel. Nid sôn yr ydym ychwaith am oedolion yn addoli, a phlant yn digwydd bod yn bresennol. Yr ydym yn hytrach yn sôn am addoliad o ansawdd arbennig iawn, na all ddigwydd ond pan fo unigolion o bob oed yn bresennol. I'r pwrpas hwn, gellir trin rhai rhannau o'r gwasanaeth mewn ffordd wahanol am fod plant yn y gynulleidfa. Gall ymateb oedolion i'r addoliad greu awyrgylch ar gyfer addoliad y plant, ac ni all hynny ddigwydd heb yr oedolion. Mae'r gwahanol oeddrannau yn ymateb i'w gilydd yn greadigol ac addolgar.

Children in the Church gan Betty Pedley a John Muir (Church House Publishing 1997)

Ni all y gweinidog byth obeithio hoelio sylw llwyr pob plentyn gydol y gwasanaeth, ond bydd yn fuddiol iddo ddwyn ar gof yr hen ddihareb Tsieineaidd:

Clywaf – anghofiaf
Gwelaf – cofiaf
Gwnaf – deallaf.

Gellir rhoi cyfle i blant i gymryd rhan mewn modd ystyrlon yn y Cymun – drwy ddarllen, paratoi ac arwain yr ymbiliau, mynd â'r bara a'r gwin at yr allor, gwneud y casgliad, a, lle bo hynny'n addas, sefyll o amgylch yr allor yn ystod y Weddi Ewcharistaidd. Ni ddylid byth edrych arnynt fel ffynhonnell adloniant, ac efallai y dylem roi sylw i'r ffordd y byddwn weithiau yn trin plant yn y gwasanaeth.

Gellid dweud y caiff plant eu brifo, eu gwthio i'r cyrion, eu hesgeuluso, eu hanwybyddu, eu cau allan, eu gwaradwyddo a'u cam-drin yn emosiynol yn nheyrnas Dduw:

- pan 'bigir arnynt' i ateb cwestiwn
- pan wneir iddynt deimlo'n wirion oherwydd anwybodaeth
- pan roddir iddynt rywbeth israddol i'w wneud: 'dal hwn', 'gad imi chwerthin am dy ben', 'bydd yn atodiad i mi'
- pan 'ddefnyddir' hwy i ddarllen rhywbeth a ysgrifennwyd gan rywun arall neu y penderfynodd rhywun arall ei fod yn addas
- pan ofynnir iddynt gwestiynau caeëdig nad oes iddynt ond un ateb 'cywir'
- pan na ofynnir am eu barn na'u syniadau
- pan ofynnir iddynt wneud synau neu ystumiau er mwyn effaith
- pan fydd pobl yn nawddoglyd tuag atynt
- pan gamddefnyddir eu hymddiriedaeth i ddifyrru eraill
- pan roddir cymeradwyaeth iddynt, er na chymeradwyir neb arall
- pan wneir iddynt berfformio eitem heb unrhyw ymgynghori nac esboniad
- pan drefnir adloniant iddynt gyda'r bwriad o'u cael i fod yn 'blant da' neu'n 'eistedd yn dawel'
- pan roddir iddynt ddehongliad 'cywir', yn ôl barn oedolion, o'r Ysgrythur
- pan ecsbloetir eu diniweidrwydd er budd oedolion

Urchins Rosemary Johnston (United Reformed Church)

Y Gweddïau Ewcharistaidd

Y mae *Y Cymun Bendigaid 2004* yn cynnwys dwy Weddi Ewcharistaidd i'w defnyddio pan fo plant yn bresennol.

Y mae **Gweddi Ewcharistaidd 6** yn addas i'w defnyddio pan fo nifer sylweddol o blant o dan 7 oed yn bresennol.

Y mae **Gweddi Ewcharistaidd 7** yn addas i'w defnyddio pan fo nifer sylweddol o blant rhwng 7 ac 11 oed yn bresennol.

Wrth ddefnyddio'r gweddïau hyn, dylid ystyried y pethau a ganlyn:

1. Cyn defnyddio'r gweddïau, darllenwch yn ofalus y canllawiau ar ddechrau'r llyfr.
2. Defnyddiwch y gweddïau yn union fel yr ysgrifennwyd hwy. Cynlluniwyd eu hiaith i adlewyrchu safon dealltwriaeth yr oedrannau dan sylw (CA1 a CA2).
3. Bwriedir i'r gweddïau gyfathrebu'n weledol yn ogystal ag yn eiriol. Gellir gwireddu hynny drwy ddangos yn glir beth sy'n cael ei wneud â'r dwylo, drwy ddefnyddio allor dros dro yng nghorff yr eglwys, neu drwy ddefnyddio cymhorthion gweledol i hybu dealltwriaeth. Er enghraifft:
 - Tafluniau ar sgrîn (gellir defnyddio taflunydd dros ben neu daflunydd pwynt pŵer).
 - Adnoddau i rieni eu defnyddio gyda'u plant, e.e. *Fy Llyfr Cymun*,
 - *Ciwb y Cymun*, *Ciwb y Pader*.
 - Blwch adnoddau ewcharistaidd yn cynnwys nifer o adnoddau gweledol i esbonio beth sy'n digwydd.

Offer Clyweled Arall

Baneri i'w chwifio ar adegau addas – y Gyffes (Mae'n ddrwg gen i), y Gloria (Moliannu Duw).

Llyfrau i'w darllen, e.e., yn Saesneg, *Sorry, Please, Thank you* yng nghyfresi Candle books a Fish.

Ciwb gweddi Gellir gwneud hwn allan o flwch hancesi papur gwag, a glynu geiriau a lluniau addas ar bob ochr iddo i gynrychioli gweddiâu – dros yr eglwys, y gymuned, anghenion arbennig, y claf a'r dioddefus, y meirw, y saint.

Mwclis gweddi Rhewch chwech o fwclis o wahanol liwiau ar gylch o edau. Gall pob un o'r mwclis gynrychioli deisyfiad yn yr ymbiliau, neu gymal neu gymalau yng Ngweddi'r Arglwydd.

Paratoi Plant at Addoli yn y Cymun

Plant a'r Cymun Bendigaid

Gellir cymuno plant cyn eu conffirmio. Gweler y canllawiau a gymeradwywyd gan Fainc yr Esgobion ym mis Hydref 2001 (*Plant a'r Cymun Bendigaid – Canllawiau ac Adnoddau i Blwyfi*).

Chwarae Duwiol

Cynnwys *The Complete Guide to Godly Play*, Cyfrol 4, gan Jerome Berryman bedair sesiwn ragorol i gynorthwyo plant i ddeall y Cymun.

- Y Bugail Da a Chymun Byd
- Y Synagog a'r Oruwchystafell
- Cylch yr Ewcharist
- Symbolau'r Ewcharist

Cysylltwch â Swyddog Plant eich esgobaeth am fwy o wybodaeth am Chwarae Duwiol.

Bendigedig fyddo Duw am byth

Y mae hwn yn cynnwys naw sesiwn y gellir eu defnyddio i arwain plant trwy'r Cymun Bendigaid mewn ffordd greadigol.

Fy Llyfr Cymun

Chwech sesiwn, sy'n galluogi plant i ddeall beth sy'n digwydd yn y Cymun.

Kay Warrington

*Atodiad 1***Adnoddau**

- All-age everything* Nick Harding (Kevin Mayhew 2001)
- Bendigedig fyddo Duw am byth – meithrin plant yn y Cymun Bendigaid* gan Bwyllgor Plant Yr Eglwys yng Nghymru (Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2002)
- Bread for all God's Family* Leslie Francis (*Gracewing* 1997)
- Children and Holy Communion* Diana Murrie a Steve Pearce (Kevin Mayhew 2003.)
- Plant a'r Cymun Bendigaid – Canllawiau ac Adnoddau i Blwyfi* Bwyllgor Plant yr Eglwys yng Nghymru (Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2002)
- Children in the Church* Betty Pedley a John Muir (Church House Publishing 1997)
- Children in Church - a survivor's guide* (Undeb y Mamau)
- Come and Join The Celebration* Betty Pedley a John Muir (Church House Publishing 2001)
- Learning with the Sunday Gospels* Leslie Francis (Mowbray 1999)
- Little Fish Books: I'm sorry* (Scripture Union)
- Little Fish Books: Thank you God* (Scripture Union)
- Little Fish Books: God made* (Scripture Union)
- Little Fish Books: Please* (Scripture Union)
- My Communion Book* Diana Murrie (Church House Publishing 2002.)
- Fy Llyfr Cymun* Diana Murrie (Church House Publishing / Yr Eglwys yng Nghymru 2003)
- Roots.* Deunydd addoli a dysgu i bob oed, seiliedig ar y llithiadur tair blynedd (Church House Publishing)
- Seasons of the Spirit.* Deunydd addoli a dysgu i bob oed, seiliedig ar y llithiadur tair blynedd (www.spiritseasons.com)
- Talking with God: Sorry* (Candle Books)
- Talking with God: Please* (Candle Books)
- Talking with God: Thank you* (Candle Books)
- Teddy Horsley The Picnic* Leslie Francis a Nicola Slee (Christian Education 1994)
- The Communion Cube* Diana Murrie a Margaret Withers (Church House Publishing 2002)
- The Lord's Prayer Cube* Diana Murrie a Margaret Withers (Church House Publishing 2003)
- The Complete Guide to Godly Play Volume 4* Jerome Berryman (Living the Good News 2003)
- Welcome to the Lord's Table* Margaret Withers (BRF 1999)